OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 1726 (Cy.189)

ANIFEILIAID, CYMRU
ATAL CREULONDEB

Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003

Wedi'u gwneud	- -	*9 Gorffennaf 2003*
Yn dod i rym	- -	*14 Gorffennaf 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1968(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(**2**) ac ar ôl ymgynghori (yn unol ag adran 2 o'r Ddeddf 1968 a enwyd) ag unrhyw bersonau sy'n ymddangos iddo eu bod yn cynrychioli unrhyw fuddiannau o dan sylw ac y mae'n barnu eu bod yn briodol, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Teitl, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003 ac maent yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 14 Gorffennaf 2003.

Darpariaethau Trosiannol

2.—(1) Mae darpariaethau paragraff 29(2) o Atodlen 6 i Reoliadau Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001(**3**), fel y'u diwygiwyd gan y Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â daliadau sydd newydd gael eu hadeiladu, eu hailadeiladu neu sydd wedi dechrau cael eu defnyddio am y tro cyntaf ar neu ar ôl 1 Ionawr 2003, ond yn achos pob rheoliad arall ni fydd y darpariaethau hyn yn gymwys hyd 1 Ionawr 2005.

(2) Mae darpariaethau paragraffau 13, 37, 38 a 39 o Atodlen 6 i'r Rheoliadau hynny yn gymwys mewn perthynas â daliadau sydd newydd gael eu hadeiladu, eu hailadeiladu neu sydd wedi dechrau cael eu defnyddio am y tro cyntaf ar neu ar ôl 1 Ionawr 2003, ond yn achos pob rheoliad arall ni fydd y darpariaethau hyn yn gymwys hyd 1 Ionawr 2013.

(**1**) 1968 p.34.
(**2**) Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 2001/2682 (Cy.223), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/1898 (Cy. 199).

Diwygiadau i Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001

3.—(1) Diwygir Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001 yn unol â darpariaethau canlynol y Rheoliad hwn:

(2) Yn rheoliad 2 mewnosodir y paragraff canlynol ar ôl paragraff (4):

(5) Mae i'r ymadroddion sydd heb eu diffinio ym mharagraff (1) uchod ac sy'n ymddangos yng Nghyfarwyddebau'r Cyngor 91/630/EEC(**4**) a 2001/88/EC(**5**) a Chyfarwyddeb y Comisiwn 2001/93/EC(**6**) yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag sydd iddynt at ddibenion y ddeddfwriaeth Gymunedol honno.

(3) Ar ôl rheoliad 8 mewnosodir y rheoliad canlynol—

"**Hyfforddi**

8A. Rhaid i unrhyw berson sy'n cyflogi neu'n llogi person i ofalu am foch sicrhau fod y person hwnnw wedi derbyn cyfarwyddiadau a chanllawiau ar ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn sy'n ymwneud â moch."

(4) Rhoddir yr Atodlen ganlynol yn lle Atodlen 6:

"ATODLEN 6 Rheoliadau 2(3) ac 8

AMODAU YCHWANEGOL SY'N GYMWYS I GADW MOCH

RHAN I

DEHONGLI

1. Yn yr Atodlen hon —

ystyr "baedd" ("*boar*") yw mochyn gwryw ar ôl ei flaenaeddfedrwydd, a fwriedir ar gyfer bridio;

ystyr "banwes" ("*gilt*") yw mochyn benyw a fwriedir ar gyfer bridio ar ôl ei blaenaeddfedrwydd a chyn porchella;

ystyr "hwch" ("*sow*") yw mochyn benyw ar ôl iddi borchella am y tro cyntaf;

ystyr "mochyn magu" ("*rearing pig*") yw mochyn o ddeg wythnos hyd at ladd neu serfio;

ystyr "porchell" ("*piglet*") yw mochyn o'i enedigaeth hyd at ei ddiddyfnu; ac

ystyr "porchell diddwyn" ("*weaner*") yw mochyn o'i ddiddyfnu hyd at 10 wythnos oed.

RHAN II

AMODAU YCHWANEGOL CYFFREDINOL

Arolygu

2. Rhaid i bob mochyn gael ei arolygu gan berchennog neu geidwad y moch o leiaf unwaith y dydd i weld a yw mewn cyflwr iachus.

(**4**) OJ Rhif L 340, 11.12.1991, t.33.
(**5**) OJ Rhif L 316, 1.12.2001, t.1.
(**6**) OJ Rhif L 316, 1.12.2001, t.36.

3. Os bydd angen, rhaid ynysu moch sâl neu anafus mewn llety addas gyda gwasarn cysurus sych.

Tenynnau

4. Ni chaiff neb roi tennyn na pheri rhoi tennyn ar unrhyw fochyn ac eithrio pan fydd yn mynd o dan archwiliad, prawf, triniaeth neu lawdriniaeth a wneir at unrhyw ddiben milfeddygol.

5.—(1) Pan ganiateir defnyddio tenynnau yn unol â pharagraff 4, rhaid iddynt beidio â pheri anaf i'r moch a rhaid eu harolygu'n rheolaidd a'u haddasu yn ôl yr angen i sicrhau eu bod yn ffitio'n gysurus.

(2) Rhaid i bob tennyn fod o ddigon o hyd i ganiatáu i'r moch symud fel a bennir ym mharagraff 6(2) isod a rhaid i'r dyluniad fod yn un a fydd yn osgoi, cyn belled â phosibl, unrhyw risg o dagu, poen neu anaf.

Llety

6.—(1) Rhaid i bob mochyn fod yn rhydd i droi o amgylch heb anhawster bob amser.

(2) Rhaid i'r llety a ddefnyddir ar gyfer moch gael ei adeiladu yn y fath fodd ag i ganiatáu i bob mochyn —

(a) sefyll, gorwedd a gorffwyso heb anhawster;

(b) cael lle glân, cysurus sydd wedi'i draenio'n ddigonol y gall orffwyso ynddo;

(c) gweld moch eraill, onid yw'r mochyn wedi'i ynysu am resymau milfeddygol;

(ch) cadw ei dymheredd yn gysurus; a

(d) cael digon o le i ganiatáu i'r holl anifeiliaid orwedd yr un pryd.

7.—(1) Rhaid i faintioli unrhyw gôr neu gorlan a ddefnyddir ar gyfer cadw moch unigol yn unol â'r Rheoliadau hyn fod o'r fath nad yw'r arwynebedd mewnol yn llai na hyd y mochyn wedi'i sgwario, ac nad yw unrhyw ochr fewnol yn llai na 75% o hyd y mochyn, ac ym mhob achos mae hyd y mochyn yn cael ei fesur o flaen ei drwyn hyd at fôn ei gynffon tra bydd yn sefyll gyda'i gefn yn syth.

(2) Ni fydd paragraff 7(1) yn gymwys mewn perthynas â mochyn benyw am y cyfnod rhwng saith diwrnod cyn y diwrnod y byddai'n porchella yn ôl y disgwyl a'r diwrnod y byddai'n diddyfnu ei pherchyll (gan gynnwys unrhyw berchyll y byddai'n eu maethu), wedi'i gwblhau.

(3) Ni fydd person yn euog o dramgwydd yn unol â rheoliad 13(1) o dorri neu fethu â chydymffurfio â'r paragraff hwn drwy gadw mochyn mewn côr neu gorlan —

(a) tra bydd o dan unrhyw archwiliad, prawf, triniaeth neu lawdriniaeth a wneir at ddibenion milfeddygol;

(b) at ddibenion serfio, cyfebru artiffisial neu gasglu semen;

(c) tra caiff ei fwydo ar unrhyw achlysur arbennig;

(ch) at ddibenion ei farcio, ei olchi neu ei bwyso;

(d) tra bydd ei lety'n cael ei lanhau; neu

(dd) tra bydd yn disgwyl cael ei lwytho ar gyfer ei gludo,

ar yr amod nad yw'r cyfnod pan yw'r mochyn yn cael ei gadw felly yn hwy na'r hyn y mae ei angen at y diben hwnnw.

(4) Ni fydd person yn euog o dramgwydd yn unol â rheoliad 13(1) o dorri neu fethu â chydymffurfio â'r paragraff hwn am gadw mochyn mewn côr neu gorlan y gall y mochyn fynd iddo neu iddi neu ei (g)adael fel y myn, ar yr amod yr eir i'r côr neu'r gorlan o gôr neu gorlan y mae'r mochyn yn cael ei gadw ynddynt heb fynd yn groes i'r paragraff hwn.

Adeiladau â golau artiffisial

8. Pan gedwir moch mewn adeilad â golau artiffisial, yna, rhaid darparu golau y mae ei ddwysedd yn 40 lux o leiaf am gyfnod o 8 awr y dydd o leiaf yn ddarostyngedig i Atodlen 1, paragraff 16, i'r Rheoliadau hyn.

Atal ymladd

9.—(1) Os cedwir moch gyda'i gilydd, rhaid cymryd mesurau i atal ymladd sy'n mynd y tu hwnt i ymddygiad normal.

(2) Rhaid i foch sy'n dangos eu bod yn gyson ymosodol tuag at eraill neu'n dioddef ymosodiadau o'r fath gael eu hynysu neu eu cadw ar wahân i'r grŵ p.

Glanhau a diheintio

10.—(1) Rhaid i adeiladau, corlannau, cyfarpar a theclynnau a ddefnyddir ar gyfer moch gael eu glanhau a'u diheintio'n gywir i'r graddau y mae'n angenrheidiol i atal trawsheintio ac i atal organeddau sy'n cario clefydau rhag crynhoi.

(2) Rhaid i ysgarthion, wrin a bwyd sydd heb ei fwyta neu wedi'i golli gael ei symud cyn amled ag y mae'n angenrheidiol i leihau'r aroglau ac i osgoi denu pryfed neu gnofilod.

Gwasarn

11. Pan ddarperir gwasarn, rhaid iddo fod yn lân, yn sych a heb fod yn niweidiol i'r moch.

Lloriau

12. Pan gedwir moch mewn adeilad, rhaid i'r lloriau —

(a) fod yn llyfn heb fod yn llithrig er mwyn rhwystro anaf i'r moch;

(b) gael eu dylunio, eu hadeiladu a'u cynnal yn y fath fodd ag i beidio â pheri anaf na dioddefaint i'r moch wrth iddynt sefyll neu orwedd arnynt;

(c) fod yn addas ar gyfer maint a phwysau'r moch; ac

(ch) os nad oes unrhyw laesodr yn cael ei ddarparu, ffurfio arwyneb caled, gwastad a sefydlog.

13. Pan fydd lloriau estyll concrit yn cael eu defnyddio ar gyfer moch sy'n cael eu cadw mewn grwpiau, rhaid i led uchaf yr agoriadau fod yn —

(a) 11mm ar gyfer perchyll;

(b) 14 mm ar gyfer perchyll diddwyn;

(c) 18mm ar gyfer moch magu;

(ch) 20 mm ar gyfer banwesi ar ôl serfio a hychod;

rhaid i led isaf estyll fod yn —

(d) 50 mm ar gyfer perchyll a pherchyll diddwyn;

(dd) 80 mm ar gyfer moch magu, banwesi ar ôl serfio a hychod.

Bwydo

14.—(1) Rhaid bwydo pob mochyn o leiaf unwaith y dydd.

(2) Pan fydd grŵ p o foch yn cael eu cadw mewn adeilad heb gyfle di-dor i gael bwyd, neu pan nad ydynt yn cael eu bwydo drwy system fwydo awtomatig sy'n bwydo'r anifeiliaid fesul unigolyn, rhaid bod modd i bob mochyn fynd at y bwyd yr un pryd â'r lleill sydd yn y grŵ p bwydo.

Dŵ r yfed

15. Rhaid bod modd parhaol i bob mochyn dros ddwy wythnos oed gael cyflenwad digonol o ddwr yfed ffres.

Cyfoethogi'r amgylchedd

16. Er mwyn i weithgareddau ymchwilio a thrafod priodol allu cymeryd lle, rhaid bod modd parhaol i bob mochyn fynd at gyflenwad digonol o ddeunyddiau megis gwellt, gwair, pren, blawd llif, compost madarch, mawn neu gymysgedd o ddeunyddiau o'r fath nad yw yn effeithio'n andwyol ar iechyd yr anifeiliaid.

Gwahardd defnyddio'r system flwch-chwysu

17. Rhaid peidio â chadw moch mewn amgylchedd sy'n golygu cynnal tymereddau uchel a lleithder uchel (amgylchedd a elwir y "system flwch-chwysu").

Lefelau sŵ n

18. Rhaid peidio â rhoi moch mewn sefyllfa lle maent yn agored i sŵ n cyson neu sydyn Rhaid osgoi lefelau sŵ n uwchlaw 85dBA yn y rhan honno o unrhyw adeilad lle mae moch yn cael eu cadw.

Ymyriadau

19. Ac eithrio fel y nodir ym mharagraffau 21 i 26 o'r Atodlen hon, rhaid peidio â chyflawni unrhyw weithdrefnau ymyrryd fyddai'n arwain at niweidio neu golli darn sensitif o'r corff neu newid strwythur yr esgyrn, heblaw at ddibenion therapiwtig neu ddiagnostig.

20. Ni chaniateir gweithredu'r gweithdrefnau a nodir ym mharagraffau 21-26 o'r Atodlen hon ac eithrio o dan amodau hylan gan filfeddyg, neu os yw'n cael ei ganiatáu o dan y gyfraith, gan berson sydd wedi'i hyfforddi yn unol â'r rheoliadau hyn ac sy'n brofiadol ym maes gweithredu'r gweithdrefnau.

21. Rhaid peidio â defnyddio'r gweithdrefnau canlynol fel rhan o'r drefn ac eithrio pan fydd tystiolaeth bod anafiadau i dethi hychod neu i glustiau neu gynffonnau moch eraill wedi digwydd:

(a) byrhau cilddannedd perchyll yn unffurf drwy eu rhygnu neu eu clipio heb fod yn hwyrach na'r seithfed diwrnod ym mywyd y perchyll gan adael wyneb llyfn cyfan;

(b) tocio rhan o'r gynffon,

ond ni chaniateir byrhau dannedd na thocio cynffonnau oni bai mesurau eraill i wella amodau amgylcheddol neu systemau rheoli wedi'u cymryd er mwyn atal brathu cynffonnau a gwendidau eraill.

22. Caniateir disbaddu moch gwryw ar yr amod na fydd dull a ddefnyddir yn golygu rhwygo meinweoedd.